YSGOL BRYNREFAIL

Eisteddfod Ysgol Brynrefail 2013

Wedi hoe fechan am flwyddyn dychwelodd eisteddfod yr ysgol i'r calendr - a hynny gydag arddeliad. Trwy gydol misoedd Medi a Hydref roedd yr ysgol yn un pair o brysurdeb gyda'r chweched dosbarth yn arwain y tai yn yr ymarferion ar gyfer yr wythnos fawr. Roedd bob cornel o'r ysgol yn cael ei melynu gan Eilian, ei chochi gan Eryri, ei gwyrddio gan Elidir a'i glasu gan Wyrfai. Erbyn yr ugeinfed o Hydref roedd pawb yn barod am yr wythnos gyffrous oedd o'u blaenau. Cafwyd rhagbrofion, gwrandawiadau, cystadlaethau Llythrennedd, Rhif a TCh ymhob adran ar draws yr ysgol, a choronwyd y cyfan gan y bwrlwm aruthrol ar ddiwrnod yr eisteddfod ei hun - Ddydd Iau, Hydref 24ain.

Y beirniaid eleni oedd Delyth Vaughan a cyn-ddisgybl, Jenni Lyn Morris, ac o unarddeg o'r gloch y bore, hyd hanner awr wedi unarddeg yr hwyr, cafwyd gwledd o gystadlu, a hynny oll yng ngwir ysbryd eisteddfota. Daeth llwyddiant i'r pedwar tŷ - mewn cystadlaethau amrywiol megis parti bechgyn, parti llefaru, dawnsio disgo, parti merched, côr, ensemble, ymgom, cân ysgafn, yn ogystal â llu o gystadlaethau unigol. Ac ar ddiwedd yr ornest, Eilian a orfu - o drwch blewyn!

Y mae dyled yr ysgol i fyfyrwyr y chweched dobarth yn aruthrol. Heb eu parodrwydd i arwain yr holl ymarferion a pharatoi cyflwyniadau a chyfleoedd fydd yn aros gyda'r disgyblion weddill eu hoes, ni fyddai'r eisteddfod unigryw hon yn cyrraedd y safon arbennig a wna. Y maent eisoes yn trafod cynlluniau Eisteddfod 2014!